

## **Maethiad anifeiliaid anwes**

### **Nodiadau'r athro**

#### **Nod**

Arddangos anghenion bwyd anifeiliaid anwes.

#### **Amcanion**

Bydd y myfyriwr yn gallu:

Nodi bwyd addas ar gyfer anifeiliaid anwes.

Trafod anghenion ysglyfaethwyr ac anifeiliaid ysglyfaeth

Sefydlu pa grwpiau o fwydydd mae pob bwyd yn ei ddarparu.

Sefydlu pa fwydydd sy'n dderbyniol.

Adnabod pwysigrwydd maint.

Trafod dulliau o gyflwyno.

#### **Cynnwys**

Mae'r uned hon yn darparu seiliau i ddeall pa fath o fwydydd sy'n addas, yn dderbyniol i'r anifeiliaid bach mwyaf cyffredin.

Cyflwynir egwyddorion cyffredinol, a bwriedir i'r myfyrwyr fedru gymhwyso'r rhain i rywogaethau o ddiddordeb arbennig.

Mae'r egwyddor hon yn gallu arwain at drafodaeth dosbarth, ymchwil annibynnol, neu dasgau ymarferol, fel yr awgrymir o fewn y cynllun gwers:



***Bwyd - awgrym ar gyfer cynllun gwers***

Amseriad mun: eil	Gweithgaredd	Cynnwys mynegol	Tasgau Awgrymedig
	Gwyliwch y clip ffilm:	Pa fwydydd a ellir eu rhoi i anifeiliaid anwes?  Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng ysglyfaethwyr ac ysglyfaeth?	Trafodaeth ystafell ddosbarth ynglŷn â strategaethau bwydo.
	Bwyd derbyniol	<b><i>Ystyriwch:</i></b> Fel arfer llysysyddion yw anifeiliaid ysglyfaeth, ac mae 'bwyd sych' ar gael sy'n cynnwys grawn a hadau. Mae hwn yn darparu cydbwysedd rhwng carbohydrad, protein a lipid.	Dosbarthwch rywogaethau, i unigolion neu grŵp, er mwyn cynnal ymchwil annibynnol.
		Gellir eu bwydo hefyd â llysiau ffres, sy'n ffynhonnell dda o garbohydradau a fitaminau,	Trafodwch Ddulliau Bwydo - cigysydd, llysysydd, hollysydd.

		<p>ond rhaid cymryd gofal gan fod rhai llystyfiant yn wenwynig.</p> <p><b>Ystyriwch:</b> Mae ysglyfaethwyr yn y gwyllt megis ffuredau yn hela, lladd a bwyta anifeiliaid fel cwingod, llygod bach ac ieir. Maent hefyd yn dwyn wyau o nythod adar.</p> <p>Rhaid felly roi cig ac wyau i'r math yma o anifeiliaid anwes, gan fod hwn yn ffynhonnell ragorol o brotein, lipid a fitaminau.</p> <p>Rhaid darparu digon o Ddŵr ffres i ysglyfaethwyr ac ysglyfaeth er mwyn cynnal hydradiad.</p>	<p>Testun trafodaeth ; Pa ganran o anifail sy'n ddŵr? Sut mae'r dŵr hwn yn cael ei golli gan anifeiliaid?</p>
		<p>Mae tasg ryngweithiol wedi ei chynnwys o fewn y pecyn hwn - Rhaid i fyfyrwyr nodi planhigion a allai gael eu bwydo'n ddiogel i anifeiliaid anwes</p>	<p>Cwblhewch y dasg ryngweithiol trwy'r linc a ddarperir.</p>

		<p>Gwylwch y clip ffilm:</p> <p>Meintiau</p>	<p>Pa faint sydd ei angen? Pa ffactorau sy'n rheoli faint i'w roi? Sut mae'r bwyd yn cael ei feintioli a'i fesur?</p> <p>Pam fod rhoi gormod o fwyd yn berygl mawr?</p> <p>Ystyriwch: Yn y gwyllt byddai'n rhaid i'r anifeiliaid yma hela neu chwilota am eu bwyd, a byddai hyn yn defnyddio egni.</p>	<p>Ymchwil annibynnol i nodi meintiau addas.</p> <p>Trafodwch sut mae oed, rhyw, statws atgynhyrchu yn medru effeithio ar faint o fwyd a roir.</p> <p>Trafodaeth ystafell ddosbarth ynglŷn â pheryglon gorfwydo.</p>
--	--	--	--	--

		<p>Gwylwch y clip ffilm:</p> <p>Cyflwyniad</p>	<p>Pam mae'n bwysig ceisio cyflwyno bwyd mewn modd sy'n annog yr anifail i weithredu'r ymddygiad hela neu chwilota hyn?</p> <p>Sut mae hwn yn effeithio ar iechyd corfforol a seicolegol?</p> <p>Ystyriwch: RHAID cofio fodd bynnag yn y DU ei bod hi'n anghyfreithlon i fwydo fertebraid byw (neu anifeiliaid gydag asgwrn cefn) i rywogaethau rheibus. Nid dyma'r sefyllfa ym mhob gwlad. Yn y DU gellir bwydo infertebratau byw megis pryfed i ysglyfaethwyr.</p>	<p>Yn unigol neu fel rhan o grŵp: Nodwch ddulliau o gyflwyno bwyd i greu cyfoethogiad. Dyluniwch rai mathau o gyfoethogiad fyddai'n annog rhywogaethau i hela neu chwilota. Trafodwch fanteision, anfanteision ac addasrwydd gwahanol lestri bwydo a dyfrhau. Dyluniwch a chynhyrchwch weithgaredd cyfoethogi trwy ddefnyddio bwyd - gwnewch ac arsylwch yr effaith ar ymddygiad.</p> <p>O fewn y dosbarth trafodwch a yw hi'n dderbyniol bwydo anifeiliaid byw i ysglyfaethwyr. Ddylai hyn fod yn berthnasol i fertebrau ac infertebratau ai peidio?</p>
--	--	--	--	---